
Polisi Geirda Cyflogaeth

Cynnwys

1	Rhoi geirda cyflogaeth	1
2	Caniatâd i roi geirda cyflogaeth.....	2

1 Rhoi geirda cyflogaeth

1.1 Bydd Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn rhoi geirda cyflogaeth i gyn-aelodau o staff yn yr amgylchiadau canlynol:

- mae'r cyn-aelod o staff wedi rhoi caniatâd i'r geirda
- mae'r geirda yn ffeithiol
- daw'r geirda gan y sefydliad ac nid yw'n eirda cymeriad a ddarparwyd gan unigolyn.

1.2 Bydd geirdaon cyflogaeth gan OGCC yn cael eu rhoi gan y Gwasanaeth Corfforaethol/ AD yn unig.

1.3 Bydd y geirda cyflogaeth yn cynnwys y wybodaeth ffeithiol ganlynol yn unig:

- cyfnod cyflogaeth
- sefyllfa wrth ymadael
- cyflog sylfaenol y flwyddyn (gan gynnwys y cyflog cyfwerth ag amser llawn os oedd yr unigolyn yn gweithio'n rhan amser)
- rheswm dros ymadael.

1.4 Os hoffai Rheolwyr roi geirda (cymeriad) personol, dylent wneud hyn drwy eu cyfeiriad e-bost personol neu'n ysgrifenedig. Fodd bynnag, ni ddylent ddefnyddio papur pennawd OGCC. Wrth roi geirda, rhaid i reolwyr ei gwneud hi'n glir mai barn bersonol yw'r geirda, nid barn OGCC.

1.5 Nid yw'r polisi hwn yn rhan o'r contract cyflogaeth ac mae modd iddo gael ei ddiwygio ar unrhyw adeg. Hefyd, gall OGCC amrywio'r weithdrefn fel sy'n briodol mewn unrhyw achos.

1.6 Cytunwyd ar y polisi a'r weithdrefn hwn ar ôl ymgynghori â Chyngor Cynrychiolwyr Staff. Mae'r polisi yn berthnasol i'r holl staff beth bynnag fo'u statws neu hyd gwasanaeth. Dim ond ar ôl ymgynghori â Chyngor Cynrychiolwyr Staff y gwneir newidiadau sylweddol i'r polisi hwn.

2 Caniatâd i roi geirda cyflogaeth

- 2.1 Rhaid i OGCC dderbyn caniatâd y cyn-aelod o staff cyn rhoi geirda cyflogaeth.
- 2.2 Mae'r holiadur ymadael, y gofynnir i bob aelod o staff ei lenwi cyn ymadael, yn cynnwys adran iddynt ei harwyddo i gadarnhau eu cytundeb. Cyn rhoi geirda cyflogaeth, bydd y Gwasanaethau Corfforaethol/AD yn gwirio bod caniatâd wedi'i roi.
- 2.3 Os na lenwir holiadur ymadael, neu os na roddwyd caniatâd gan y cyn-aelod o staff, bydd y Gwasanaethau Corfforaethol/AD yn cysylltu â'r cyn-aelod o staff i geisio ei ganiatâd i roi'r geirda.
- 2.4 Gellir gwneud hyn naill ai drwy'r cyflogwr neu'r cwmni sy'n ceisio'r geirda, neu'n uniongyrchol â'r cyn-aelod o staff mewn achosion lle cedwir y manylion cyswllt cyfredol.

Grŵp Cymeradwyo Polisi	Tîm Rheoli
Dyddiad Cymeradwyo'r Polisi/ Adolygiad Polisi (& EIA os yw'n berthnasol) gan Grŵp Cymeradwyo	Ebrill 2019
Dyddiad yr Adolygiad nesaf (2 flynedd ar ôl y blaenorol oni nodir yn wahanol yn y polisi)	Mehefin 2021
I'w gyhoeddi ar: (Os oes fersiwn gryno i'w gyhoeddi, yna nodwch 'Na' am fersiwn lawn, ac 'Ie' ar gyfer y fersiwn Gryno ar wahân).	Mewnrwyd (Ie) Gwefan OGCC (Ie) (Os 'Ie' i'r wefan – trefnwch i gyfieithu'r ddogfen)